| | |
|---|---|
| | **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, MALDWYN 2024** |
| | Cystadleuaeth 131 – Grŵp Llefaru Bl. 7, 8 a 9 |
| | **Difaru, Emrys Roberts** |

I hela aeth Llywelyn
Ar ei farch, a'r cryfaf un
Yn y Llys o'i helgwn llwyd
O ar ôl ar yr aelwyd.

Yn dawel llyfai Gelert
Wyneb bach y baban perth
Yn ei siôl, a'i lygaid syn
A'i gwyliai rhag pob gelyn.

Yn sydyn blaidd arswydus
Du, bron â llwgu, i'r Llys
Dan udo'n wyllt a neidiodd
Yna ar ruthr y crud a drodd.

Bu brwydro caled, – wedyn
Ar y llawr ymledai'r llyn
Yn goch lle bu hirddant gwyn
Gelert yn llarpio'r gelyn.

Ac yna, â'i gŵn cynnes,
Drwy'r niwl gwibiai'r meistr yn nes
Ond ar ôl dod o'r hela
Ar frys i'w Lys, aeth fel iâ.

Yn drist ochenaid a rôdd
Yn uchel ac fe fflachiodd
Ei lafn uwch ffrind ffeindia'r wlad
Yn marw trwy gamgymeriad.

Ond ar ôl sylweddoli
Y cam a wnaethai â'r ci
Daeth dagrau a dyddiau du
O hiraeth a difaru.

Emrys Roberts